Trivallis.

# Strategaeth cysylltu cymunedau.



www.trivallis.co.uk

# Cyflwyniad

Mae'r strategaeth hon yn dangos sut fyddwn ni'n troi ein nodau o Fframwaith Strategol 2024-29 (Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair) yn gamau gweithredu go iawn. Mae'n ymwneud â gwneud newidiadau mawr i Trivallis fel y gallwn fod yn sefydliad sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac yn cyflawni ein gwerthoedd.

Yn y Fframwaith Strategol rydyn ni'n nodi ein prif bwrpas sef:

**Gwella lles cymunedau a'r bobl sy'n byw ynddyn nhw fel y gallant ffynnu.**

Byddwn yn gwneud hyn drwy gyfuno ein cryfderau â chryfderau aelwydydd a phartneriaid yn y meysydd rydyn ni'n eu gwasanaethu.

# Cael y pethau sylfaenol yn iawn

Wrth i ni weithio tuag at ein nodau mawr, ni fyddwn yn anghofio'r pethau sylfaenol:

- Darparu cartrefi diogel, fforddiadwy ac effeithlon o ran ynni gyda gwasanaethau tai da.
- Darparu tai i'r rhai sydd eu hangen.
- Sicrhau bod gan ein gweithwyr swyddi ystyrlon a'u bod yn derbyn cymorth ar gyfer twf personol.
- Sicrhau bod tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan o bopeth a wnawn.

# Datblygu strategaeth

Mae'r strategaeth hon a'n strategaethau eraill yn seiliedig ar syniadau ac adborth gan bawb o fewn Tîm Trivallis. Rydyn ni wedi gwrando ar denantiaid sy'n cymryd rhan, staff, uwch arweinwyr, a'r Bwrdd. Rydyn ni wedi chwilio am yr arferion diweddaraf a mwyaf llwyddiannus yn y sector tai a'r sector cyhoeddus ehangach ac wedi'u defnyddio. Mae ein hymagwedd at ddatblygu cymunedol yn seiliedig ar yr hyn a ddefnyddir ym mhob cwr o'r byd.



# Newid diwylliant

Y newid mwyaf y bydd yn rhaid i ni ei wneud yw newid y ffordd rydyn ni'n meddwl ac yn gweithio. Bydd y newid hwn yn effeithio ar bawb—staff, arweinwyr, y Bwrdd, a thenantiaid. Bydd angen i ni newid sut rydyn ni'n siarad, bod yn agored i ddysgu ffyrdd newydd, a rhoi'r gorau i hen arferion a phrosesau. Bydd mwy o gydweithio hefyd a gwneud pethau'n wahanol. Bydd hyfforddiant a chefnogaeth, ynghyd â diweddariadau i'n systemau TGCh, yn ein helpu i wneud y newidiadau hyn.




# Yr hyn y byddwn yn ei wneud

Mae pedair elfen i'n dull newydd. Nod yr elfennau hyn yw sicrhau ein bod yn cyflawni ein gwerthoedd o fod yn garedig, yn gynhwysol, yn flaengar ac yn ddibynadwy. Rydyn ni hefyd am gofleidio Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn llawn, fel y gall ein gwasanaethau ddiwallu amgylchiadau unigol ein holl denantiaid yn well.

# 1. Datblygu cymunedol: newid y ffordd rydyn ni'n gweithio gyda chymunedau a phartneriaid i gefnogi lles cymunedol

Byddwn yn defnyddio dull Datblygu Cymunedol Seiliedig ar Asedau, gan ganolbwyntio ar yr hyn y mae cymunedau ei eisiau, gan eu helpu i lunio eu dyfodol eu hunain. Bydd hyn yn golygu gweithio'n agos gyda thenantiaid a phreswylwyr i deilwra ein hymdrechion i anghenion pob cymuned. Er mwyn cefnogi'r broses hon, ein nod yw adeiladu a chryfhau perthnasoedd o gydymddiriedaeth gyda sefydliadau, arweinwyr a dylanwadwyr cymunedol.

Byddwn yn lansio rhaglen i greu cynlluniau cymunedol cynhwysol gyda phreswylwyr. Bydd y cynlluniau hyn yn helpu cymunedau i benderfynu beth y gallant ei wneud ar eu pen eu hunain, beth y gallant ei wneud gyda'n cefnogaeth, a'r hyn sydd angen i ni neu bartneriaid eraill ei wneud. Er mwyn mesur cynnydd, byddwn yn datblygu adnoddau i asesu cysylltiadau o fewn ein cymunedau ac yn gwerthuso canlyniadau'r cynlluniau hyn.

Byddwn yn ailsefydlu cynllun gwirfoddoli i'n staff, gan ganiatáu i'r holl staff dreulio amser yn gwirfoddoli yn ein cymunedau. Hefyd, byddwn yn sicrhau cymaint o fuddion cymunedol â phosibl o'n hymdrechion caffael ac yn gweithio gyda busnesau mawr eraill i gynyddu'r hyn a gaiff ein cymunedau.

Er mwyn cefnogi ein cymunedau ymhellach, byddwn yn sefydlu is-gwmni elusennol i godi arian ar gyfer gwasanaethau a buddsoddiadau na allwn eu darparu'n uniongyrchol. Byddwn hefyd yn helpu cymunedau i sefydlu sefydliadau a chyfleusterau lle nad ydyn nhw'n bodoli ar hyn o bryd ac yn gwneud y defnydd gorau o'n tir gwag at ddibenion cymunedol.

Lle bo hynny'n bosibl, byddwn yn creu cyllideb gymunedol fel y gall pob cymuned benderfynu ar ei blaenoriaethau gyda'n cymorth ariannol. Byddwn yn pwyso a mesur defnyddio'r gyllideb hon fel cyllid cyfatebol ar gyfer amser gwirfoddolwyr yn y gymuned. Yn olaf, byddwn yn datblygu dulliau i fapio a chipio'r rhwydweithiau a'r asedau yn ein cymunedau ac yn defnyddio mesurau lles cymunedol i olrhain cynnydd.



2.

# Cyfranogiad cymunedol: newid sut rydyn ni'n galluogi tenantiaid a'n cyfranddalwyr i ddylanwadu ar ein blaenoriaethau a'n gwaith

Byddwn yn creu dull i fesur ac adrodd ar ganlyniadau ein gwaith cyfranogi cymunedol ar y lefelau Corfforaethol a lleol. Rydyn ni'n bwriadu cynnal digwyddiad ar gyfer ein holl denantiaid bob yn ail flwyddyn i gysylltu a rhannu diweddariadau.

Byddwn yn adolygu ac yn ailddiffinio rôl aelodau Trivallis i'w gwneud yn fwy ystyrlon a dylanwadol, a byddwn yn annog tenantiaid i ymaelodi. Byddwn hefyd yn gweithio i sefydlu llais lleol i'n tenantiaid ym mhob cymuned, gan sicrhau ein bod yn derbyn adborth ar ein gwasanaethau a'n cartrefi o safbwynt lleol.

Er mwyn sicrhau bod ein Panel Gweithredu gan Denantiaid yn gynhwysol ac yn gynrychioliadol, byddwn yn adnewyddu ac yn ehangu ei aelodaeth, gan ddymchwel unrhyw rwystrau sy'n atal cyfranogi. Rydyn ni am i'r Panel a'i weithgorau chwarae rhan ddylanwadol yn ein penderfyniadau. Hefyd, byddwn yn ceisio barn grwpiau amrywiol, yn enwedig y rhai nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml, trwy feithrin cysylltiadau â sefydliadau lleol sy'n cynrychioli'r grwpiau hyn, gan weithio gyda nhw i gasglu eu mewnbwn ar ein gwasanaethau a'n cyfeiriad i'r dyfodol.

Byddwn yn ymdrechu i ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli i'n holl denantiaid ac i'w cartrefi yn eu cymunedau. Byddwn hefyd yn archwilio'r buddion y gellir eu cynnig i denantiaid sy'n cymryd rhan yn ein gweithgareddau cyfranogi. Yn olaf, byddwn yn hyrwyddo'r gwahanol ffyrdd y gall tenantiaid gymryd rhan yn ein gwaith ac yn tynnu sylw at effaith eu cyfranogiad o fewn y sefydliad ac i'r cyhoedd yn ehangach.



3.

## Adfywio cymunedol: newid y ffordd rydyn ni'n cyfrannu at gyfoeth cymunedol o fewn ein cymunedau.

Byddwn yn llunio ein contractau i ddenu contractwyr lleol, gan gynnwys busnesau bach, ac yn gweithio gyda nhw i sicrhau eu bod yn talu cyflog byw i'w gweithwyr. Byddwn hefyd yn ceisio cynyddu capasiti cyflenwyr lleol, gan eu helpu i ennill contractau a'u cynnwys yn ein prosesau i recriwtio gweithwyr dan hyfforddiant a phrentisiaid.

Ein nod yw sicrhau trydan adnewyddadwy rhatach i'n tenantiaid, o bosibl drwy gynhyrchu ein hynni adnewyddadwy ein hunain o dan Safon Ansawdd Tai Cymru. Bydd hyn yn helpu i wrthbwyso cost uwchraddio cartrefi i EPC A. Byddwn hefyd yn ymchwilio i ehangu'r ystod o waith y gall ein staff mewnol ei gyflawni, gan leihau ein dibyniaeth ar gontractwyr.

Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau mynediad cyfartal at ein swyddi, cyfleoedd hyfforddi, cyfranogiad tenantiaid a rhaglenni gwirfoddoli. Byddwn yn buddsoddi yn natblygiad personol ein tenantiaid, ein gwirfoddolwyr a'n staff. Hefyd, byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru a cholegau Addysg Bellach i ddatblygu rhaglenni meithrin sgiliau, yn enwedig y sgiliau hynny sydd eu hangen i greu cartrefi mwy ynni-effeithlon.

Er mwyn cefnogi ein cymuned ymhellach, byddwn yn ymchwilio i opsiynau ar gyfer datblygu rhaglen mynediad digidol, gan sicrhau y gall pob tenant ddefnyddio ein gwasanaethau digidol. Byddwn hefyd yn cynorthwyo sefydliadau gyda'u hymdrechion codi arian ac yn defnyddio ein his-gwmni elusennol i ddod â mwy o arian elusennol a chyhoeddus i'r Fwrdeistref.

Mae ein Strategaeth Cartrefi yn cynnwys camau eraill sy'n canolbwyntio ar adfywio cymunedol.







# 4.

## Llais cymunedol: eirioli dros bolisïau sydd o fudd i'n cymunedau

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â Cartrefi Cymunedol Cymru a rhanddeiliaid eraill i ddylanwadu ar bolisïau ar lefel genedlaethol ac ar lefel y DU, gan sicrhau bod llunwyr polisi yn deall sut mae'r polisïau hyn yn effeithio ar ein tenantiaid, ar ein cymunedau ac ar Trivallis. Byddwn yn cefnogi tenantiaid i eiriol dros eu buddiannau eu hunain ac yn eiriol ar eu rhan lle bo angen.

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i lunio polisïau sy'n cydbwyso lleihau digartrefedd a diwallu anghenion tai gyda'r nod o greu cymunedau cynaliadwy. Byddwn hefyd yn gweithio'n genedlaethol ac yn rhanbarthol i wella'r cysylltiad rhwng gwasanaethau iechyd a thai.

Yn ogystal, byddwn yn cydweithio â'n partneriaid academaidd i ymgorffori ymchwil a dysgu yn ein busnes. Bydd hyn yn ein helpu i wella ein gwasanaethau a chefnogi'r amgylchedd ehangach.

# Yr hyn rydyn ni'n disgwyl ei weld



## Ein dull datblygu cymunedol

Nid oes gennym ffordd glir eto o fesur buddion datblygu cymunedol. Bydd llawer o ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth yn effeithio ar sut mae cymunedau'n datblygu.

Er mwyn olrhain ein cynnydd, byddwn yn defnyddio:

- Mesurau boddhad tenantiaid: Byddwn yn edrych ar arolygon presennol am foddhad yn y gymdogaeth, cyfranogiad, a pha mor dda rydyn ni'n gwrando ar denantiaid. Byddwn yn cymharu canlyniadau gwahanol gymunedau ac yn gweld sut mae pethau'n newid dros amser. Mae gennym dros 500 o wirfoddolwyr sy'n darparu adborth, a'n bwriad yw ehangu'r grŵp hwn er mwyn cael mewnbwn rheolaidd ar sut mae ein tenantiaid yn profi'r newidiadau.
- Mesurau cysylltiad cymunedol: Byddwn yn creu ffyrdd o weld pa mor gysylltiedig y mae tenantiaid yn ei deimlo o fewn eu cymunedau ac i ba raddau maen nhw'n teimlo y gallant ddylanwadu ar eu dyfodol eu hunain.
- Mesurau cymunedau penodol: Byddwn yn gweithio gyda chymunedau penodol i ddeall sut maen nhw am fesur cynnydd.
- Adborth gan bartneriaid: Byddwn yn cael adborth gan bartneriaid sy'n gweithio mewn cymunedau am ein gwaith a pha mor dda rydyn ni'n cysylltu â nhw.



## Cyfranogiad cymunedol

Mae gennym ddull i fesur effaith cyfranogiad tenantiaid a byddwn yn olrhain hyn gydol 2024–25. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar yr effaith hon ac yn parhau i wneud hynny'n flynyddol.



## Effaith economaidd ac amgylcheddol

Byddwn yn sefydlu ffyrdd o fesur ac adrodd ar ein heffaith economaidd ac amgylcheddol gyffredinol, gan gynnwys ein hôl troed carbon a sut rydyn ni'n mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Bydd hyn yn cael ei gynnwys mewn adroddiad blynyddol.




## Boddhad staff

Gallai newid leihau boddhad staff dros dro wrth i ddulliau newydd gael eu rhoi ar waith. Fodd bynnag, ein nod yw gwella boddhad staff dros amser wrth i weithwyr weld effaith y newidiadau yn y gymuned. Byddwn yn cynnal arolygon staff ac arolygon pwls llai i olrhain cynnydd a byddwn yn disgwyl gweld:

- Cynnydd ym moddhad staff wrth i ddulliau newydd gael eu sefydlu.
- Iechyd a lles staff yn well, a llai o ddiwrnodau salwch.

# Sut fyddwn ni'n cadw golwg ar gynnydd

Mae hwn yn newid mawr i ni, felly bydd y Prif Weithredwr yn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Bwrdd ym mhob cyfarfod.

Byddwn yn creu set sylfaenol o fesurau i gofnodi o ble rydyn ni'n dechrau.

Byddwn yn gweithio gyda'r Bwrdd i ddatblygu dangosfwrdd sy'n olrhain ein cynnydd.

# Faint fydd hyn yn ei gostio?

Rydyn ni wedi neilltuo arian yng nghyllideb 2024–25 i gefnogi'r newidiadau cynnar, gan gynnwys rhaglenni hyfforddiant a rolau newydd ar gyfer datblygu cymunedol.

Bydd angen i ni gydbwyso'r dull hwn â thasgau pwysig eraill, fel darparu gwasanaethau landlord allweddol a chadw ein cartrefi mewn cyflwr da.

Yng nghyllidebau'r dyfodol, mae'n bosibl y byddwn yn cyfeirio mwy o adnoddau i'r cynllun hwn, ond dydyn ni ddim yn disgwyl y bydd angen llawer o gyllid ychwanegol.

# Risgiau a heriau

- Mae risg y gallem ysgwyddo gormod a cholli ffocws ar ein prif rôl fel landlord, yn enwedig gyda'n hadnoddau cyfyngedig. Er mwyn osgoi hyn, mae angen i ni ddeall yn iawn beth sy'n digwydd yn y cymunedau rydyn ni'n gweithio gyda nhw.

- Bydd y dull newydd hwn yn rhoi mwy o reolaeth i gymunedau, sy'n golygu y bydd sut rydyn ni'n mesur llwyddiant yn amrywio mewn gwahanol feysydd. Efallai na fyddwn yn gallu mesur canlyniadau ein holl waith, sy'n her mewn sector sy'n gwerthfawrogi mesuriadau cyson.

- Gallwn helpu aelwydydd a chymunedau i ffynnu, ond mae ffactorau eraill na allwn eu rheoli, fel yr argyfwng costau byw a phroblemau gyda'r system fudd-daliadau. Yn sgil hynny, efallai na fydd lles cymunedol yn gwella, hyd yn oed gyda'n hymdrechion.

- Wrth i ni reoli'r newidiadau hyn, efallai y byddwn yn gweld mwy o staff yn mynd a dod, mwy o salwch, a llai o foddhad ymhlith staff am gyfnod wrth i bobl addasu i'r ffordd newydd o weithio.

- Mae newid ein diwylliant sefydliadol yn waith mawr ac yn waith hirdymor. Bydd angen arweinyddiaeth gref ac mae risg efallai na fyddwn yn canolbwyntio digon arno i sicrhau ei fod yn dod yn rhan arferol o'r ffordd rydyn ni'n gweithio.

# Casgliad

Mae'r strategaeth hon yn dangos sut fyddwn ni'n gwireddu ein dyheadau yn Fframwaith Strategol 2024-29 (Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair). Trwy ddilyn y cynllun hwn, ein nod yw gwella lles cymunedau a'r bobl sy'n byw ynddyn nhw, gan eu helpu i ffynnu. Byddwn yn cyflawni hyn drwy gyfuno ein cryfderau â rhai'r cymunedau lle rydyn ni'n gweithio a chryfderau ein partneriaid.

Trwy wella ein cysylltiadau â thenantiaid a chymunedau, gwrando arnyn nhw'n astud, gweithio'n fwy effeithlon, a chanolbwyntio ar gryfderau, byddwn yn creu effaith gadarnhaol, gan adeiladu ar yr hyn sy'n gadarn, nid dim ond mynd i'r afael â'r hyn sydd o'i le.

Bydd ein gweithredoedd yn cael eu llywio gan egwyddorion tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant, a'n gwerthoedd o garedigrwydd, ymddiriedaeth, cynnydd a chynhwysiant. Gan fod yn driw i'w gwerthoedd hynny, byddwn yn helpu aelwydydd a chymunedau i gymryd rheolaeth a chreu dyfodol mwy disglair a mwy cysylltiedig i bawb.

Trivallis.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni ar:

**03000 030 888**

**customerservices@trivallis.co.uk**

Tŷ Pennant
Stryd y Felin
Pontypridd
CF37 2SW

Mae croeso i chi alw heibio yn ystod ein horiau swyddfa:
Dydd Llun i ddydd Gwener: 9.00am – 3.00pm